


# Glas

Bwletin misol  
*Llên*  
natur

Rhif 182  
Ebrill 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Cornchwiglen - 8 Mawrth 2023  
Cors Ddyga, Pentre Berw, Sir Fôn  
Llun Nia Evans

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia  
Cysylltwch â ni trwy [cymuned.llennatur@gmail.com](mailto:cymuned.llennatur@gmail.com)



# Gwymon bwyd gwartheg



Morwyal rhychog *Pelvetia canaliculata*  
Llun Scott Saunders

## Gan Dewi Lewis: "Of Tanguing"

Tra'n pori trwy gyfrol Henry Rowlands *Idea Agriculturae Henry Rowlands* (ysgrifennwyd 1704 cyhoeddwyd 1764) deuthum ar draws adran yn dwyn y teitl "Of Tanguing". Dyma ddywed Rowlands am yr arfer [f = s]:

*"It was a very anfiend Cuftom alfo near the Sea Shore in this Country, as I find it is generally practifed in Scotland and the Ifles, where great Store of the Alga Marina or Sea Tanguie ufed to be thrown up by Storms and Tides to carry it by Horfe Loads to the adjacent Grounds and to fpreading it on the Lands, to plow prefently upon it"*

Ar ôl darllen yr adran daeth rhywbeth i'r cof bod y gair "tang" i'w gael yn Nyddiaduron William Bulkeley, Brynddu. Felly dyma chwilio'r dyddiaduron a chael y cyfeiriad yma yn y flwyddyn 1753 :

*"April 17th. The Wind blowing fresh and cold from W. & by S. and made some rain early in the morning; the rest of the day was dry, but cloudy and dark: A Scotsman being drowned on Lavan Sands last Winter, by the ferrymen's refusing or neglecting to go for him two of the Said ferry men on the morrow went in quest of the Corps, tore out his pockets, stole his money, and afterwards finding his Box and Pack, carryed them also away & hid them in the Point under gravel & Tang"*

Wrth olygu a thrawsgrifio'r dyddiaduron fe nodwyd gan Nesta Evans "the etymology of 'tang' in the Collins dictionary is related to the Old Norse word for a spit or a point". Am ba reswm bynnag nid oeddwn yn hapus mai "point" oedd ystyr y "tang" yma. Roedd y gair point wedi ei ddefnyddio eisioes ac felly nid oedd synnwyr mewn defnyddio'r gair yr eildro. Roedd yr ymadrodd "under gravel & Tang" hefyd yn awgrymu rhywbeth arall. Tybiais mai'r un oedd "Tang" a "Sea Tanguie" ond nid oeddwn yn gyfarwydd â'r gair na'r ymadrodd "tanguing". Felly, dyma gysylltu gyda Duncan Brown. Syniad Duncan oedd cysylltu gyda Roddy Mclean, o Inverness, siaradwr Gaeleg ac yn frwd dros gysylltiadau pobl efo natur.

Ymhen dim o amser daeth ymateb oddi wrth Roddy a diolch iddo am ein goleuo.

*It's an interesting question. I would say that tang is a Scots word, derived from a Norse original. See Dictionaries of the Scots Language :: SND :: tang n1 (dsl.ac.uk). It is also used (occasionally) in Scottish English. For example the seaweed we know as feamainn-chìrean (*Pelvetia canaliculata*) is sometimes known as 'cow-tang' because it is often fed to cows, particularly calves. Tang appears to be a general name for seaweeds, applied historically across the range of the genus Fucus, which originally took in most of the brown marine algae. You'll see it referring to the wracks but I think it can also apply to the kelps and this appears to be what is meant by Sea Tanguie in the account from Ynys Môn. The kelps are often washed up into piles on the shore (we call it a brùchd in Gaelic) and that is where the drowned man's belongings were hidden. But, of course, there might have been wracks also in the brùchd. A derived (?) form, Tangle, seems to be more generally used of kelps, most notably species of *Laminaria* and most particularly *Laminaria digitata*. See Dictionaries of the Scots Language :: SND :: tangle (dsl.ac.uk).*

Fel mae'n digwydd bu Duncan Brown yn pori drwy ôl rifynnau **Llên Natur** (**Glas** erbyn hyn) gan fod ganddo gof ei fod wedi clywed y gair "tang" o'r blaen.

## Yn rhifyn 106 ceir gwybodaeth gan Roddy Maclean wedi ei addasu gan Sion Roberts:

Enw Cymraeg a Saesneg	Enw yn y Gaeleg (a'r tarddiad posib)	Nodiadau diwyllianol (cyf. o'r Saesneg)	Sylwadau Sion Roberts
morwyal rhychog, gwymon rhychog, Channelled Wrack <i>Pelvetia canaliculata</i>	<i>Feamainn Chirean</i> 'gwymon crib y ceiliog'	Y gwymon uchaf ar y traeth, ni all ddiodef gormod o drochfa môr. Defnyddir i borthi gwartheg i roi sglein ar eu cotiau.	<i>Cow tang</i> – bwyd i wartheg, <i>holy wrack</i>



## Gwymon bwydwy - ar blat, mewn tabl<sup>(1)</sup>

Enw Cymraeg a Saesneg	Enw yn y Gaeleg (a'r tarddiad posib)	Nodiadau diwyllianol (cyf. o'r Saesneg)	Sylwadau Sion Roberts
gwymon bwyta, llywethau'r môr Radderlocks, <i>lobberlocks</i> <i>Alaria esculenta</i>	<i>Mircean</i> Nors efallai	Dim ond ar y tral isaf Bwyteir wythien gano, a'r sborffiaid sy'n codi swbwrn y gwludfael (angor).	Radderlocks (o Balder's locks, sbernydd i ffrondaau hollt yn ymdebygu i walt Balder, awr Spandafnaldid)
gwymon codog mân Bladder wrack <i>Fucus vesiculosus</i>	Propach efallai "yr un sydd yn arnofo"	Canol y traeth. Fe'i defnyddir i werteithio caeau tatws neu <i>lasy beds</i> . Welthiau i wneud te neu gwrte.	Hefyd black tang, lodywrack, sea whistle, papweed, pipweed.
gwymon bwyta, gwymon melys, delysg crych, lafar piws, lawr piws, corngheir <i>Chondrus crispus</i> + <i>Mastocarpus stellatus</i>	<i>Cairgin</i> yr un ar y graig	Un o holl wynnau bwydwy'r Gaeleg da i dewychu lobogwys neu bwddin. Ar gregiau yn mhen isaf traeth.	Mae dwy rywogaeth yma: <i>Chondrus crispus</i> a <i>Mastocarpus stellatus</i> y ddwy yn dilyn yr enw corngheir yn y Wyddeleg (a'r Saesneg?)
morwyal rhychog, gwymon rhychog, Channelled Wrack <i>Pelvetia canaliculata</i>	<i>Feamainn Chirean</i> 'gwymon crib y ceiliog'	Gwymon uchaf ar y traeth, ni all ddiodef gormod o drochfa môr. Defnyddir i borthi gwartheg i roi sglein ar eu cotiau.	<i>Cow tang</i> – bwyd i wartheg, <i>holy wrack</i>
delysg Pulse <i>Palmaria palmata</i>	<i>Duilleasg</i> ( <i>duille-uiseg</i> ) 'deilen dwr'	Gwymon amheutun iawn, yn jimi ar gyfer gwyddu cawl tew. Ar gregiau isaf y traeth neu ar forwall.	<i>Palmaria palmata</i> : palma, -ae [U] - lled cleir y llaw, flurf llaw. Bwydeleg: cranngah




Llên natur Cysylltwch gyda ni:  
cymuned.llennatur@gmail.com

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

## “Hadau” cynffon y gath

Bras y Cyrs - Cors Ddyga, Pentre Berw, Sir Fôn pnawn  
'ma - 'Bwytau Hadau Cynffon y Gath'. Nia Evans



Ond nid hadau mohonynt ond olion larfa cosmed yr hesg.

Mae'r enw *phragmitella* (o *Phragmites* neu corsen, ll. cyrs) yn hanesyddol anghywir. Turio i blanhigyn cynffon y gath *Typha* mae'r gwyfyn hwn, nid y gorsen (er gwaethaf yr enw bras y cyrs, ar yr aderyn!).

*Phragmitella*

Gwyfynod a Glöynnod Byw. Cymdeithas Edward Llwyd 2007



3



Dyma'r gorsen er cymhariaeth  
Llun Ifor Williams

## Pila gwyrdd

Llun da, a gwybodaeth ! - Pila Gwyrdd (ceiliog)  
Llansannan, 2 Mawrth 2023

Dys Griffiths



Mae'r **pila gwyrdd** (*Carduelis spinus*) yn perthyn i'r teulu Fringillidae. Mae'n aderyn cyffredin trwy'r rhan fwyaf o Ewrop, gorllewin Rwsia a rhan o ddwyrain Asia.

Nid yw'r pila gwyrdd yn aderyn mudol yn y rhannau lle mae'r gaeafau'n weddol gynnes, ond mae adar o'r gogledd yn symud tua'r de a'r gorllewin yn y gaeaf, a'r adar o ddwyrain Asia yn gaeafu yn Tsieina. Mae'n aderyn gweddol fychan, 11.5-13.5 cm o hyd. Mae'r cefn yn llwydyrdd a'r bol yn llwyd gyda marciau gwyn, yr adenydd yn ddu dyda bar melyn amlwg ar eu traws a'r gynffon yn ddu gydag ochrau melyn. Mae pen a bron y ceiliog yn felyn gyda chap du, tra mae'r iâr yn llwydyrdd.

Wikipedia

## Tramps

Un prynhawn tra'n bwydo'r ieir, gwelodd mam drempyn yn agosáu yn y pellter a prysurodd i'r tŷ i'n rhybuddio a'n gorchymyn i beidio gwneud yr un smic. Toc cyfarthai Nel yn wallgof a gwyddem fod y tramp wedi cyrraedd a'i fod yn ceisio gwneud ei ffordd at ddrws y cefn. Gwyddem hefyd na allai byth fynd heibio'r ast ddefaid ffyrnig oedd ynghlwm wrth ei chennel gan fuaasai wedi ei ddarnio mewn eiliaid. Y peth nesaf wedyn oedd ei glywed yn curu ar ddrws y ffyrnt. Swatiem ninnau yn ddistaw fel llygod gan ddisgwyl iddo flino a mynd ymaith. Ond dal i stelcian o gwmpas yr oedd. Ymhen ychydig roeddem wedi diflasu ar ein caethineb a mam wedi blino yn ceisio cadw cow arnom. Aethom bob yn ail i sbecian drwy'r ffenestr fechan oedd yn y drws a gwelem ei fod wedi eistedd ar y wal fechan tu allan a dim argoel ei fod am adael. Roedd golwg arw arno â'i locsyn llaes blêr yn cyrraedd at ei frest a'i gap crychiog '*Tam-o-Shanter*' brown yn llac dros ei dalcen a'i glustiau. Penderfynodd mam o'r diwedd mai'r peth gorau iddi oedd gwneud rhywbeth ynghylch y peth ac aeth allan drwy ddrws y cefn ac i gyfeiriad y caeau. Gwelodd y tramp hi a galwodd arni gan ofyn yn Saesneg os y cai fynd i un o'r adeiladau i gysgu. Cymerodd fy mam arni na ddeallai ddim arno gan ei ateb nôl yn Gymraeg bob gafael. Roedd hyn yn gyrru'r tramp i bembleth a dechreuodd grafu ei ben i geisio datrys y broblem. Toc tarodd ar 'brên-wêf. Tynnodd y *Tam-o-Shantu* oddi ar ei ben a'i rowlio yn rholyn a'i ddal ar gledr ei law ac yna plygu ei ben nes roedd yn gorffwys ar y cap. Caeodd ei lygaid ac meddai mewn llais distaw, "*Weli*" - "*Weli*". Gwyddai mam mai gwely a feddyliai a theimlai eisiau chwerthin wrth ei weld mor gomic.

Tra roedd y ddrama hon yn mynd ymlaen daeth fy nhad adre er mawr ryddhad i mam a ninnau'r plant. Cafodd y tramp damaid o swper â lloches dros nos ac roedd yn hynod ddiolchgar gan iddo gwyno yn arw fod ei draed yn brifo cymaint nad oedd yn meddwl fedrai gerdded cam ymhellach y noson honno.

Nid wyf yn cofio fawr o gadw moch ar y fferm er bod yno ddau gwt mochyn reit nobl yn y buarth. Byddent am flynyddoedd yn wag a byddem ninnau'r plant wrth ein bodd yn chwarae ynddynt. Roedd llawer o goed yn tyfu o amgylch y fferm a phan fyddai'r dail yn disgyn yn yr Hydref, byddai mam yn eu casglu mewn sachau a'u gwasgaru ar lawr y cytiau moch fel matresi clud a chynnes ar gyfer rhai o'r crwydriaid gysgu.

Daeth tramp un diwrnod i geisio lloches, ond pan welodd mam yn ei arwain i gyfeiriad un o'r cytiau, syrthiodd ei wyneb a gwylltiodd yn gacwn a rhoi tro ar ei sawdl a dweud yn gibog dros ei ysgwydd, "Mae rhywun wedi fy magu innau!" cyn martsio mewn tymer am y lôn. Fel gellid meddwl, roedd y tramp hwnnw wedi pechu yn anfaddeuol. Clywsom ei hanes gan gymydog wedyn yn achwyn bod, "Rhyw ddynes lawr y dyffryn yn meddwl iddo gysgu mewn cwt mochyn!" Pe bai ond wedi aros i weld yr hen gwt cysurus hwnnw yn iawn...

Gallwn fynd ymlaen fel hyn yn ysgrifennu llawer mwy o straeon 'Tramps,' yn wir mae yma ddefnydd llyfr ac mae clywed Daniel fy mrawd yn eu dynwared yn un o'r pethau doniolaf. **Mary Awstin Jones (Mary Pritchard gynt)**

## Ychwanegiad Cae Pitar :

Fy ewythr Bob Pritchard, neu 'Robin Plas' fel y'i adwaenid yn lleol, glywais yn adrodd yr hanesyn bach yma am 'Pitar Eli,' hen drempyn fyddai'n galw o bryd i'w gilydd heibio Bryn Afon, sef cartref cyntaf teulu fy mam ym Metws Garmon ym mlynnyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf.

Byddai 'Pitar Eli' yn galw o bryd i'w gilydd i gardota wrth ddrws tŷ fy nhaid a nain yn y Betws, ac er mwyn ennill ei damaid, byddai taid yn rhoi ambell 'joban' iddo fel palu clwt tatws yn y cae. Wedi'r orchwyl, cai Pitar lond ei biser tolciog o laeth enwyn ynghyd a thatws drwy'i crwyn a pheycyn o fara ceirch yn ei boced i'w gynnal ar hyd y ffordd.

'Cae Pitar' oedd yr enw answyddogol ar y cae hwnnw gan fy nhaid a nain.

Mois

## John Price :

Un hen drempyn na chai groeso o gwbl gan fy nhaid a nain Plas Isa oedd y nodedig John Preis. Pan fyddai John Preis yn galw wrth y drws, byddai'n eithriadol o ddigywilydd ac os na fyddai wedi ei blesio gyda beth a gynigwyd iddo, byddai'n siwr o ddial yn ffaidd arnynt drwy wneud troeon sâl â hwy fel agor y giatiau a hel y defaid i'r ffordd fawr neu dro arall troi y caniau llaeth oddi ar y stand llechen ar eu hwaered â'r llefrith yn llifo fel afon lawr y lôn.

Mois

## Dyfyniad o'r gyfrol MÂN BETHAU HWYLUS - John Preis -

W.S.Jones. (Wil Sam.)

Cyhoeddwyd / Gwasg Gwynedd

Os od ydi hynod, a hynod ydi od, yna ma hwn yn haeddu lle yn yr oriel. Yn un peth, roedd o wedi crwydro mwy efo'i draed na ma llawar ohonon ni wedi'i grwydro efo'n ceir. Oedd, roedd gynno fo grap reit dda ar bob tre a phentra yng Nghymru, a toedd Lloegr a'r hen Sgotland 'na', chadal onta, ddim yn hollol ddiarth iddo fo. Ma'n debyg mai'r crwydro diddiwadd 'ma, a'r cysgu allan yma ac acw mewn tŷ gwair a sguor a sied a thin clawdd, oedd y gwahaniaeth mwya rhwng John a'r gweddill ohonon ni. Am wn i, hefyd. Erbyn meddwl, ma 'na amal i hen drempyn sydd wedi crwydro'r wlad a'r gwledydd yn union fel fynta. Na nid yr elfan tramp a'r ysfa grwydro sy'n gneud John Preis, o Gapal Ucha Clynnog, mor wahanol. Roedd 'na betha erill – roedd o'n wahanol i *edrach* arno fo, 'ran pryd a gwedd; roedd o'n gwisgo'n wahanol; roedd ei iaith neu'i eirfa fo'n wahanol, a'i agwedd o tuag at bobol a phethau'n wahanol, siwr gin i. Mewn gair, ei ymwareddiad o sy'n gneud John yn gofiadwy.

Dyn bychan sionc yn mynd yn fân ac yn fuan a'i ben o'i flaen, a'i lygad o'n deud ei fod o'n cael ei gorddi. Top-côt fel soldiar amdano fo a chap gwyrdd am 'i ben o. Hen ffaga am 'i draed o yn tywydd mawr a sgidia cryfion am 'i draed o yn ystod gwres mawr yr ha. Chlywis i rioed ei fod o'n or-hoff o molchi, ond eto bydda'i wynab o'n sgleinio fel petai o newydd ei sgwiro efo sebon coch. Blaen ei drwyn o'n goch fel radish bob amsar, ac un dant pig yn amlwg yn nhop 'i geg o ar y chwith wrth i chi'i wynebu o.

la, un fel'na oedd o. Un ai roedd o'n wahanol neu mae'r gweddill ohonon ni i gyd 'run fath. Dwn i ddim, ond mi wn gymaint â hyn: roedd John Preis wedi bod cyn iachad â chneuan am flynyddoedd meithion, a hynny ar draul esgeluso'i hun ym mhob dull a modd.

Hwyrach mai stori ryfedda'i fywyd o ydi'r un sydd ar ei garrag fedd o ym mynwant Capal Ucha Clynnog.

**JOHN PRICE**  
**Bu farw Hydref 15, 1985**  
**yn 91 mlwydd oed**

## Erthygl Gwilym Morris-Jones - Mois -



Hefyd: "Maldwyn yn mwydro"  
 ...am John Preis  
[blog](#)

Parhad o hanes trampiau (GLAS Rhifyn 181 - Chwefror 2023)  
 Os ydych am ddarllen y stori mewn un darn ewch i'r [ddolen hon](#).


## Yr Afal Tindwll



**Ail ddarganfod yr afal tindwll** : y ffrwyth canoloesol anghofiedig efo enw anwedus [\(BBC\)](#).  
 Rhanwyd gan Wendy Jones

Dyma eiriadur Saesneg Collins yn dangos fel mae defnydd y gair Saesneg am afal tindwll, *medlar*, wedi lleihau mewn print dros dair canrif. Brodor o Bersia yn wreiddiol, fe'i plannwyd ar draws Ewrop mewn perllannau. Cafwyd y cyfeiriad cyntaf ato ym Mhrydain yn y 10ed ganrif. Bwytid y ffrwythau ar ol gadael iddynt bydru ("*blotted*") efo gwin, ond jam a jelly yw'r prif ddefnydd i'r ffrwythau heddiw.

Golygydd



Dyma hanesyn gan yr athro ysgol o Langristiolus, TG Walker 74 mlynedd yn ôl yn ei ddyddiadur yn Y Cymro :

Mercher 26 Hydref 1949 ■ Gaeafol, gwlyb a stormus. Oer ac egar yw'r tywydd, gydag awelon cryfion yn sgubo'r haul o'i chwr. Y mae eira i'w weled ar Eryri. Trwy'r post bore heddiw o Gaernarfon, dyma barsel bychan yn cynnwys y ffrwyth a adwaenir y Saeson wrth yr enw *Medlar*. Enwau da arno yn Gymraeg yw Cerien, Afal Tindoll *[sic]*, a Merys. Ar y goeden meryswydden y tyf yr afal rhyfedd hwn, y ffrwyth yn gyfryw na ddichon ei ddefnyddio cyn iddo fod yn or-aeddfed neu ar fin mynd yn ddrwg. Gan amlaf defnyddir y Merys i wneud jeli neu geulfwyd

Dyma fwy o straeon a gasglwyd am y planhigyn dirgel hwn:

Frwyth y merysbren. Erioed wedi bwyta nhw, ac yn eu gweld yn anaml. Llauer ohonynt ar goeden yn Gerddi Treborth, ar hyn o bryd. Scott Saunders




[Llun dolen](#) gan Luned Meredith yn dilyn ymweliad â [Dolbelydr](#), roedd *Mespilus germanica*, merysbren, [*medlar*] yn y berllan hefyd.

[Ffrwythau'r medler](#) yn Kloastr-Pleiben \ le Cloître-Pleyben, Llydaw 21 Medi 2011 - llwyn mewn gwrych yn llawn ffrwythau. *Nèfle(s)\** yn Ffrangeg [*mesper* yn Llydaweg ■ DK] \*Llygriad o'r Lladin *mespila* / Hen Ffr. *mesple* / Groeg μέσπιλον Duncan Brown

Oes yna rywun yn gyfarwydd efo [chwyddau 'gall'](#) ar goeden meryswydd, medlar? Paul Williams

Mwy o hanes y medlar: Bwletin, [Llên Natur 34](#) (Rhagfyr 2010) <https://www.llennatur.cymru/>

# Eira Mawrth 2023



## Mwd, llechi a'r gongl siarad

*...To day Carpenters took down ye old mood in Llanfechell Church (who had all those Monstrous figures upon it) that William Jones the Slater might render the Roof within side of the Chancell, the body of the Church being rendered 6 years before, the rendring cost 2d.2/1 a yard, he finished likewise slateing the last remaining part of the Sd [Said] Church, haveing now a New Roof slated with Carnarvanshire Slates all over, the Slateing work cost 6d. a yard, he is likewise to slate the cross Isle, called y Gongl siarad 6d a yard ?*

**Mae yna Hanes yn fan hyn! Beth oedd y mood a be ddigwyddodd iddo. Llechi sir Gaernarfon sylwer - o ba chwarel tybed yn 1734. 'Congl siarad' - beth yn union oedd hon?**

13/12/1734 ■ Llanfechell- Ffynhonnell: Dyddiadur William Bulkeley, Brynddu, Llanfechell, Môn (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor) Nodiadau: 13th.

Llechi o ardal Dyffryn Nantlle fuaswn i yn tybio. Rhain yn cael eu hallforio o ardal Caernarfon. *Transepts were once referred to as "Congl Siarad" and served as a kind of local court, in which local disputes were settled.* ("Ancient and Medieval Architecture-St Mechell's Church"). **Dewi Lewis**

Dyma ddolen [Medieval Heritage](#) : Byddai'n dda gwybod a oes cyfeiriad arall at y 'gongl siarad' sy'n cadarnhau'r ystyr hon, sef llys lleol. Mae'r ymadrodd yn digwydd yma (yn y paragraff olaf): **Papurau Newydd Llyfrgell Cymru** [1]

Ac mae 'congl-siarad' yn digwydd yma yn yr ystyr 'siarad mewn corneli', h.y. hel clecs. **Papurau Newydd Llyfrgell Cymru** [2] **Dylan Foster Evans**

Byddai'n ddiddorol gwybod o ble daeth yr wybodaeth mai 'a kind of local court, in which local disputes were settled' yw'r ystyr.

Wedi dwad ar draws hwn bore 'ma. Mae'n ychwanegu rhywfaint o wybodaeth am Y Gongl Siarad:

*"An old inhabitant of Llanfechell told me that as a young girl she attended Llanfechell Church and sat in Gongl Siarad. It appears that this name was and is given to the North and South Transepts of the Church and that this part of the Church is called and known by that name today"*

*"I am assured by another old inhabitant, a descendant of Rev. Ambrose Lewis of Llanrhyddiad that only the South Transept goes by this name. She tells me that there was in days gone by a Gongl Siarad in every Church in Anglesey. People were not allowed to speak of mundane things in the main body of the Church, but were allowed to do so in the Transepts. Moreover, according to this lady the Transepts were used as a kind of local law court where local disputes were dealt with. Hence Gongl Siarad."*

Llythyrau Parch.W. Morris-Jones, Ficer Bae Cemaes wedi eu cofnodi yn "Religion and Politics in Mid-Eighteenth Century Anglesey" G. Nesta Evans (1953) **Dewi Lewis**

Am y groglen: tybiaf mai cam-ddarllen **m<r** sydd yma: nid "mood" ond "rood" [screen].

[Rood screen: "a screen, typically of richly carved wood or stone, separating the nave from the chancel of a church. Rood screens are found throughout western Europe and date chiefly from the 14th–16th centuries." ■ "Rood: a cross or crucifix symbolizing the cross on which Jesus Christ died; specifically : a large crucifix on a beam or screen at the entrance to the chancel of a church."

**Dafydd Morris**

Nid Rood sydd yma mae'n debyg ond Mood. sef tarddiad o'r gair "nenfwd", dyna awgrym Syr Ifor Williams sef "arched tester ceiling of the chancel" ( Religion and Politics in Mid-Eighteenth Century Anglesey" G. Nesta Evans (1953). **DL**

Efallai mai hwn ydi'r unig gofnod ei fod wedi bodoli o gwbl yn yr eglwys hon?! **Golygydd**

Bosib iawn. Ond gallwn gymryd yn ganiataol fod un ym mhob eglwys erbyn diwedd yr Oesoedd Canol. Mae rhai croglenni ysblennydd wedi goroesi yn y canolbarth. Bues i yn Llanwnnog a Llananno yn gynharach eleni yn edrych arnynt. Maen nhw'n arbennig iawn. Sw'n i'n meddwl mai'r rhai mwya diarffordd sydd wedigoroesi gorau, a bod yn onest. Siwr fod ansawdd y croglenni yn yr eglwysi cadeiriol yn uwch, er enghraifft. Ond mae'r rhan fwyaf o lawer wedi mynd am eu bod wedi denu sylw'r diwygwyr neu am fod arian ar gael i dalu am 'welliannau'. Tipyn o'r ddau beth yn achos Llanfechell, mae'n ymddangos. **Barry Lewis**

Tarddiad 'nenfwd'.... Nen+mwd ■ mwd yn tarddu o S. vault [GPC / mood](#) ■ "to day Carpenters took down ye old mood in Llanfechell Church (who had all those Monstrous figures upon it) that William Jones the Slater might render the Roof within side of the Chancell, the body of the Church being rendered 6 years before," Dec 13 1734

# Cwis: Adar mis Mawrth

Dyma rhyw 16 o adar sy wedi cael eu gweld adeg yma'r flwyddyn. Tybed a fedrwnh llwyddo i orffen y cwis hwn cyn i adar mudol ymuno â ni yn y gwanwyn!



A



B



C



Ch



E



F



Ff



G



Ng



H



I



L



LI



M



N



O

1 Mwyalchen

5 Dryw

9 Llinos bengoch

13 Robin goch

2 Pila gwyrdd

6 Creÿr bach

10 Titw tomos las

14 Bronwen y dŵr

3 Drudwen

7 Llwyd y gwrych

11 Gwalch glas

15 Bronfraith

4 Cnocell fraith fwyaf

8 Mulfran

12 Rhegen dŵr

16 Dryw penfflamgoch

**Aderyn mudol** ([ar Wicipedia Cymraeg](#)) yw aderyn sy'n teithio'n rheolaidd i wahanol ardaloedd yn ôl y tymhorau. Mae llawer o adar yn symud cannoedd neu filoedd o filltiroedd, er enghraifft mae llawer o adar y tir yn nythu yn y gogledd, rhai cyn belled a'r Arctig, ac yn hedfan tua'r de i dreulio'r gaeaf. Er enghraifft mae llawer o adar sy'n nythu yng ngogledd Ewrop yn treulio'r gaeaf yn Affrica. Mae rhywfaint o adar sy'n nythu ymhellach i'r de, er enghraifft rhan ddeheuol De America ac Awstralia, yn mudo tua'r gogledd i ardaloedd cynhesach at y gaeaf, ond nid yw hynny mor gyffredin.

Mae'n fanteisiol i'r adar nythu yn y gogledd, gan fod y dyddiau'n hirach yn yr haf a mwy o gyfle i gael bwyd i'r cywion. Fel mae'r dyddiau'n byrhau maent yn paratoi i fudo tua'r de. Mae rhai rhywogaethau yn 'fudol neu'n sefydlog yn ôl y rhan o'r byd lle maent yn byw; er enghraifft mae'r mwyalchen yn mudo tua'r de neu tua'r gorllewin o wledydd Llychlyn, ond nid yw'r mwyelch sy'n byw ymhellach i'r de yn Ewrop yn mudo.

Gall adar fudo dros bellteroedd llawer llai hefyd, er enghraifft, rhywogaethau sy'n nythu yn y mynyddoedd yn symud i dir is ar gyfer y gaeaf.